Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod**
**Commercial Street**
**Gilfach**
**Bargoed**
**CF81 8JG**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Cafodd ysgol gynradd Gymraeg Gilfach Fargod ei sefydlu yn 1963.

Lleolir yr ysgol ym mhentref Gilfach ar gyrion tref Bargoed yng nghanol Cwm Rhymni. Mae'r ysgol yn gwasanaethu dalgylch Bargod a Gilfach. Yn achlysurol, daw disgyblion o drefi a phentrefi eraill yn y cwm.

Mae niferoedd disgyblion wedi cynyddu dros y blynyddoedd ac mae bellach 196 o ddisgyblion yn yr ysgol, gan gynnwys dosbarth meithrin amser llawn.

Disgrifir yr ardal fel un sydd o dan anfantais economaidd. Mae 17.8% o ddisgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol.

Mae 53 o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, gyda dau ddisgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw 93% o ddisgyblion o gartrefi lle Saesneg yw'r brif iaith. Nid oes disgyblion yn hanu o gefndir ethnig yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2011 a'r dirprwy bennaeth ers Hydref 2011.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £2,530 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Nghaerffili yw £6,779 a'r lleiafswm yw £2,494. Mae Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod yn safle 72 o'r 75 ysgol gynradd yng Nghaerffili o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- llwyddiant yr ysgol mewn datblygu dwyieithrwydd o oed cynnar;
- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- addysgu o safon dda yn yr holl ddosbarthiadau gyda chefnogaeth arbennig y cymorthyddion dysgu yn cyfrannu at hyn;
- bod safonau ymddygiad ac ymroddiad y disgyblion i'w tasgau yn dda iawn;
- y modd y mae'r ysgol yn hyrwyddo lles y disgyblion yn effeithiol iawn;
- bod y ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn gosod sylfeini cadarn iawn i ddisgyblion yr ysgol; a
- bod cysylltiadau cryf a chydweithio effeithiol rhwng yr ysgol a phartneriaethau.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth gadarn sydd wedi ei pherchnogi gan bawb sydd ynghlwm â'r ysgol;
- bod llywodraethwyr yn gweithredu'n effeithiol iawn ac yn gwybod yn dda am gyflawniad disgyblion a gwaith yr ysgol;
- hanes o weithredu blaenoriaethau ar gyfer gwelliant;
- bod rheolaeth a chynllunio ariannol o ansawdd da;
- bod yr ysgol yn gwybod yn dda am berfformiad grwpiau o ddisgyblion ac unigolion; a
- bod cydlynwyr yr ysgol yn deall eu rolau ar gyfer arwain yn eu meysydd.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau cyrhaeddiad bechgyn;

A2 cynyddu'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni ar y lefel uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2;

A3 codi safonau ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2;

A4 gwella llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion;

A5 sicrhau cysondeb mewn cynllunio tymor canolig a chynllunio ar gyfer dilyniant mewn datblygiad medrau ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2;

A6 sicrhau bod prosesau hunanarfarnu a chynllunio strategol ar gyfer gwelliant yn rhoi ffocws penodol ar ddeilliannau disgyblion; a

A7 datblygu'r defnydd o asesu ar gyfer dysgu ymhellach ar gyfer codi safonau.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro gan yr awdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n astud ac yn gweithio'n ddiwyd yn ystod y gwersi ac yn dangos cynnydd yn eu cyflawniad dros gyfnod o amser.

Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu gallu llafar yn y Gymraeg yn fuan iawn ar ôl dechrau yn yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif yn ymateb yn dda ar lafar. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith. Mae safon darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y ddwy iaith yn briodol i'w hoedran a'u gallu. O fewn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen ac yn eu defnyddio'n effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn uchel gyda rhuglder, cywirdeb a mynegiant cynyddol ac maent yn dangos dealltwriaeth o destunau.

Mae datblygiad ysgrifennu ar draws yr ysgol yn briodol gyda mwyafrif o'r disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol yn eu llyfrau iaith erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ysgrifennu i wahanol bwrpasau ar draws y pynciau. Nid yw mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn talu sylw digonol i daclusrwydd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith.

Mae safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn dangos cynnydd pendant o'u cymharu â chanlyniadau asesiadau disgyblion ar fynediad i'r ysgol. Mae perfformiad y disgyblion mewn gwyddoniaeth wedi bod yn uchel o'i gymharu ag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru, gyda chynnydd mewn Mathemateg erbyn 2011. Mae perfformiad mewn Cymraeg yn cymharu'n ffafriol gyda pherfformiad ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru. Roedd canlyniadau mathemateg ac gwyddoniaeth 2011 yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar sail canrannau cinio am ddim, a chanlyniadau Cymraeg ymhlith yr 50% isaf.

Mae nifer y disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 sy'n cyrraedd y lefel uwch mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn agos at y cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg ond ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n dda gyda pherfformiad ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru. Mae Cymraeg a Saesneg yn dangos cynnydd ar y blynyddoedd blaenorol, lle bu perfformiad yr ysgol ychydig is na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru. Yn 2011, roedd canlyniadau Cymraeg a Saesneg yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar sail canrannau cinio am ddim, a chanlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth yn yr 50% isaf.

Mae nifer y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2 yn isel iawn o'i gymharu â'r teulu o ysgolion a'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Ar y lefelau disgwyliedig, mae merched wedi perfformio'n sylweddol well na'r bechgyn ymhob pwnc ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 er bod y gagendor perfformiad mewn Cymraeg a Saesneg wedi cau dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar frig yr ysgol.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

**Lles: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, hapus a gofalgar iawn. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yno ac mae ganddynt hyder yng ngallu'r ysgol i ddelio gydag unrhyw bryder. Maent yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach ac mae nifer dda o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol sy'n cael eu cynnig yn ystod y dydd ac mewn clybiau ar ôl ysgol.

Mae cyfraddau presenoldeb yn agos i'r cyfartaledd cenedlaethol ond ychydig yn is na chyfartaledd ysgolion tebyg ar sail yr hawl i ginio am ddim. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae disgyblion yn ymddwyn yn ardderchog a dangosant barch a gofal at ei gilydd. Ni fu gwaharddiadau parhaol na rhai dros dro yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae bron pob disgybl yn dangos diddordeb yn ei waith ac yn canolbwyntio'n dda iawn yn y gwersi. Mae gan y disgyblion ymdeimlad o ymrwymiad i'w cymuned ac maent yn elwa o ystod dda o weithgareddau cymunedol megis ymweld â chartre'r henoed, cymryd rhan mewn cyngherddau amrywiol ac ymweld â banc a busnesau lleol i ddeall sut mae byd busnes a byd arian yn gweithio.

Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth briodol o ddiwylliannau a chrefyddau eraill. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn ymwybodol o'r angen i ofalu am yr amgylchedd gan gynnwys eu cymuned leol.

Drwy'r cyngor yr ysgol, y cyngor eco, holiaduron a thrafodaethau, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd da iawn i fynegi barn a chyfrannu i fywyd a gwaith yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae staff y Cyfnod Sylfaen yn cydgynllunio'n dda ac yn llwyddo i gynnig profiadau dysgu amrywiol a chyfoethog i'r disgyblion. Mae'r cynlluniau yn fanwl ac yn datblygu medrau disgyblion yn drefnus ac mewn dilyniant.

Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, mae'r cynllunio yn anghyson o ran manylder, cynnwys a gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion. Ceir cymysgedd o gynlluniau parod a chynlluniau'r ysgol ac nid oes dilyniant o brofiadau ysgogol i ddisgyblion o fewn themâu, yn enwedig yn y medrau. Er bod disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig o fewn eu gwersi iaith, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith mewn rhai pynciau eraill yn lleihau cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae trefniadaeth addas yn ei lle ar gyfer rhoi cefnogaeth i grwpiau penodol o ddisgyblion.  Yr yr arfer orau, mae cynllunio gwahaniaethol ar gyfer cefnogi ac ymestyn disgyblion, gyda sylwadau staff a chyflawniad disgyblion yn effeithio ar y cynllunio o ddydd i ddydd.  Nid yw hyn yn ddigon amlwg ym mhob dosbarth, yn enwedig ar gyfer disgyblion o allu uwch.

Mae darpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol.  Defnyddir cyd-addoli yn briodol i roi sylw i ddatbygiad ysbrydol a moesol y disgyblion.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig ei datblygu’n gadarn iawn ar hyd yr ysgol.

**Addysgu:  Da**

Mae’r addysgu’n gyson dda ar draws yr ysgol.  Mae gan bob un o’r athrawon wybodaeth dda am gyrhaeddiad disgyblion ac mae llawer yn gwahaniaethu tasgau'n briodol yn eu dosbarthiadau.  Mae perthynas waith dda iawn rhwng y disgyblion a holl staff yr ysgol.  Mae tîm o staff cefnogol o ansawdd uchel iawn yn yr ysgol a chant eu defnyddio’n effeithiol iawn yn yr holl ddosbarthiadau.

Mae cyflymder y gwersi yn effeithiol ac yn sicrhau bod disgyblion ar dasg yn dda.  Mae llawer o’r athrawon yn cwestiynu ac yn herio disgyblion yn effeithiol ac mae tasgau a chynhaliaeth yn cael eu gwahaniaethu’n briodol.  Mae holl staff yr ysgol yn cynnig modelau iaith da i’r disgyblion.

Mae elfennau o asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu’n effeithiol yn yr ysgol.  Mae mwyafrif y disgyblion yn gwybod beth yw nod gwers a beth yw eu targedau personol mewn llythrennedd.  Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae athrawon yn rhannu meini prawf llwyddiant gyda’r disgyblion ac yn rhoi cyfleoedd priodol i’r disgyblion hunanasesu.  Nid yw’r arferion hyn wedi gwreiddio’n ddigonol drwy’r ysgol.  Mae’r adborth ysgrifenedig i ddisgyblion yn nodi cryfderau a meysydd i’w gwella yn briodol.  Nid yw disgyblion bob tro’n cael cyfleoedd i ymateb i’r sylwadau hyn.  Mae adroddiadau i rieni yn cwrdd â’r gofynion statudol ac mae pob disgybl yn cyfrannu’n effeithiol iawn atynt yn flynyddol drwy ysgrifennu cofnod am eu datbygiad eu hunain.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae’r ysgol yn gofalu’n dda iawn am ei disgyblion ac yn adnabod eu hanghenion yn gynnar.

Anogir disgyblion i fynegi barn yn rheolaidd, i gyfrannu’n effeithiol at ddatblygiadau o fewn yr ysgol ac i fod yn rhan o weithgareddau yn y gymuned leol.  Mae’r cyngor ysgol yn gweithredu’n effeithiol iawn ac yn dylanwadu ar agweddau o fywyd yr ysgol.  Hyrwyddir byw’n iach yn effeithiol.

Mae’r ysgol yn hybu agwedd bositif tuag at ymddygiad yn llwyddiannus iawn.  Mae ganddi raglen addysg bersonol a chymdeithasol dda sy’n cael ei gweithredu’n rheolaidd.  Mae datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael sylw priodol.  Cynhelir gwasanaethau dyddiol gyda ffocws pendant ar hybu ymwybyddiaeth y plant o werthoedd pwysig megis parch a thegwch.

Mae gan y darparwr bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o wasanaethau arbenigol a chysylltiadau gydag asiantaethau allanol megis cydlynydd partneriaeth yr awdurdod, athrawon ymgynghorol a therapyddion galwedigaethol. Mae trefniadau effeithiol yn yr ysgol ar gyfer hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb.

Mae darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r staff ategol i'w cefnogi.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn un gofalgar iawn sy'n hybu cydweithio, rhannu a pharch at eraill. Caiff pob disgybl gyfle i fod yn rhan o weithgarwch yr ysgol ac maent yn falch o'r cyfle hwn. Mae'r ysgol yn effeithiol iawn yn paratoi'r disgyblion ar gyfer camau nesaf mewn bywyd.

Mae'r ysgol yn cyflwyno gwerthoedd priodol ac yn rhoi ffocws penodol ar werth gwahanol bob mis. Mae'r disgyblion yn dysgu dathlu gwahaniaethau diwylliannol drwy ardaloedd rôl ac arddangosfeydd amrywiol. Gwneir defnydd da o bob rhan o adeiladau'r ysgol. Mae'r amgylchedd yn lliwgar a symbylus gydag arddangosfeydd amrywiol sy'n hybu'r dysgu yn effeithiol.

Mae'r ystafelloedd dosbarth yn ddeniadol ac yn symbylus, gydag arddangosfeydd yn hybu'r dysgu. Mae trefniadaeth gwersi yn dda ac adnoddau da ar gael ym mhob dosbarth er mwyn cyflawni tasgau'n effeithiol. Caiff yr adeiladau a'r safle eu cynnal yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn ar gyfer yr ysgol, sy'n cael ei chrynhoi yn ei harwyddair 'Gwreiddiau cadarn, dyfodol disglair'. Bu staff a'r llywodraethwyr yn rhan weithredol o'r broses i sefydlu'r weledigaeth, ac mae'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn ohoni.

Mae'r tîm rheoli hŷn yn cynnig arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol. Mae'n rhannu disgwyliadau'n glir, ac mae'r cynlluniau strategol yn dylanwadu'n gadarnhaol ar y ddarpariaeth.

Cafodd meysydd cyfrifoldebau pwnc eu rhannu'n briodol, ac mae pob athrawes yn cyfrannu'n fuddiol tuag at arweinyddiaeth ar draws yr ysgol. Mae'r cyfarfodydd staff yn cyfrannu'n ddylanwadol at brosesau monitro ac arfarnu.

Mae'r gefnogaeth gan y corff llywodraethol yn gadarn. Gŵyr y llywodraethwyr yn dda am safonau cyflawniad disgyblion. Maent yn barod i gefnogi'r ysgol fel ffrind beirniadol, ac yn gofyn cwestiynau perthnasol sy'n dwyn yr ysgol i gyfrif ar sail y wybodaeth y maent yn ei derbyn. Maent yn ateb y gofynion statudol o ran eu

cyfrifoldebau, ac yn cymryd rhan weithredol a chadarnhaol wrth ymweld â gwersi, a thrafod gydag athrawon a'r cyngor ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn weithgar i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae codi safonau llythrennedd yn flaenoriaeth gyson, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi gwreiddio'n dda, a rhoddwyd sylw i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu. Trwy gydweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol a'r gwasanaeth ymgynghorol, mae'r ysgol yn rhoi sylw cymwys i flaenoriaethau lleol.

### Gwella ansawdd: Digonol

Mae trefniadau addas yn eu lle ar gyfer hunanarfarnu. Mae gan yr ysgol gyfoeth o wybodaeth o ystod eang o ffynonellau, sy'n cael ei defnyddio'n briodol i arfarnu perfformiad yr ysgol ac i adnabod blaenoriaethau perthnasol. Mae'r ysgol yn mesur a chofnodi perfformiad grwpiau a disgyblion unigol ond nid yw'r prosesau dadansoddi a chrynhoi canfyddiadau data yn ddigon effeithiol. Mae'r ysgol yn gofyn barn disgyblion, staff a rhieni/gofalwyr yn rheolaidd ac yn ymateb yn briodol i'r canfyddiadau.

Mae cydlynwyr pwnc yn monitro ac arfarnu eu meysydd yn briodol yn eu tro ac yn adrodd ar gynnydd. Mae'r canfyddiadau wedi rhoi sail dda i drafodaethau safoni a chymedroli gwaith iaith mewn cyfarfodydd staff, ac yn cyfrannu gwybodaeth ddefnyddiol i'r broses hunanarfarnu.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn adnabod cryfderau a meysydd datblygu'n dda, er bod rhai adrannau'n rhy ddisgrifiadol. Nid yw'r cyswllt rhwng y broses hunan arfarnu a'r cynllun datblygu ysgol yn ddigon cadarn, ac mae rhai blaenoriaethau pwysig heb eu cynnwys, megis tangyflawniad bechgyn a'r angen i ymestyn y disgyblion mwyaf galluog. Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol wedi eu hamserlennu'n effeithiol ac mae'n nodi cyfrifoldebau gweithredu staff. Ond nid yw meini prawf llwyddiant y Cynllun Datblygu Ysgol yn ffocysu'n ddigon penodol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhan o gymuned ddysgu a rhwydweithiau proffesiynol ar draws ysgolion Cymraeg yr ardal, sydd wedi cael effaith bositif ar y ddarpariaeth ar gyfer llafaredd.

### Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol gysylltiadau positif iawn gyda rhieni a gofalwyr. Mae bron y cyfan ohonynt yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn cyfrannu iddo mewn dulliau ymarferol, er enghraifft, ymweld â dosbarthiadau i siarad am eu swyddi a chynorthwyo i sefydlu Undeb Credyd.

Mae'r cysylltiadau gyda'r Cylch Meithrin, sydd ar gampws yr ysgol, yn gweithio'n effeithiol. Mae'r berthynas gyda'r ysgol uwchradd leol yn gadarn iawn, ac mae'r disgyblion yn elwa'n sylweddol o weithgareddau pontio amrywiol. Un cryfder amlwg yw'r gwersi wythnosol gan athro o'r ysgol uwchradd, sy'n paratoi'r disgyblion yn arbennig o dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Ceir trefniadaeth effeithiol ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion gyda'r ysgol uwchradd a hefyd gydag ysgolion Cymraeg y clwstwr.

Mae'r ysgol yn manteisio'n briodol ar sefydliadau megis y gwasanaeth iechyd ac asiantaethau diogelwch, ac ar wasanaethau'r awdurdod lleol. Mae wedi tanysgrifio i nifer o gytundebau lefel gwasanaeth perthnasol.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi datblygu perthynas ddefnyddiol gyda chymunedau busnes yn yr ardal, fel rhan o'r gweithgareddau i wella safonau llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn arfer dda iawn.

Mae cysylltiad buddiol gyda sefydliadau hyfforddi athrawon, ac mae'r ysgol yn cynorthwyo i hyfforddi myfyrwyr ar gyfer bod yn ofalwyr plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol o arian er mwyn sicrhau lefel briodol o staff sydd wedi eu hyfforddi a'u paratoi yn gymwys i gyflwyno'r cwricwlwm. Maent yn cynllunio'n bwrpasol i gryfhau'r tîm arwain.

Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn rhan effeithiol iawn o'r staff ac yn cael dylanwad positif ar y dysgu ac addysgu. Mae cydlynwyr pynciol yn gweithredu'n bwrpasol i wella'r ddarpariaeth er mwyn datblygu eu meysydd ymhellach.

Mae'r ysgol yn sicrhau fod y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno a'i weithredu yn effeithiol. Mae'r systemau rheoli perfformiad yn gweithio'n llwyddiannus i sicrhau amcanion pwrpasol i athrawon sy'n cefnogi blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant addas yn fewnol, a gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol ac asiantaethau hyfforddi pwrpasol.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 1 dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 2 dangosydd pwnc craidd (y perfformiad disgwyliedig yn y Gymraeg neu'r Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) wedi amrywio. Yn 2008 roedd perfformiad yr ysgol yn gyfartal â chyfartaledd y teulu ond yn uwch na chyfartaledd Chymru. Yn 2009 a 2010 roedd perfformiad yr ysgol yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru ac yn 2011 yn uwch ddau.

Mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 1 yn y Gymraeg dros bedair blynedd wedi amrywio mewn cymhariaeth â'r teulu o ysgolion ond wedi bod yn well na chyfartaledd Cymru ac eithrio 2010. Mae cyflawniad mewn ysgrifennu yn is na llafaredd a darllen o'i gymharu gyda chyfartaledd y teulu. Mewn Mathemateg mae'r canlyniadau yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru ar gyfer 2008 a 2011 gyda 2009 a 2010 yn is. Mae gwyddoniaeth wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru dros y pedair blynedd.

Mae'r canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn gosod yr ysgol ymysg y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn y dangosydd pynciau craidd, mathemateg a gwyddoniaeth a'r 50% isaf mewn Cymraeg.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd lefel 3 wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf gyda phatrwm o fod yn perfformio yn agos i gyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg ond yn is na chyfartaledd Cymru ymhob pwnc.

Nid yw'r bechgyn wedi perfformio cystal â'r merched o safbwynt cyflawni lefel 2 mewn Cymraeg, mathemateg na gwyddoniaeth dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r patrwm yn wahanol ar gyfer lefel 3 gyda'r merched yn rhagori mewn Cymraeg a'r bechgyn yn rhagori mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae'r ganran o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o fewn y dangosydd pwnc craidd dros bedair blynedd wedi bod yn is na chyfartaledd Chymru dros y pedair blynedd ddiwethaf ac yn uwch na chyfartaledd y teulu ddwywaith.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y Saesneg wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru bob blwyddyn tan 2011, lle maent yn uwch na'r ddau.

Mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 yn y Gymraeg dros bedair blynedd wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru yn 2009 a 2010 ond yn uwch yn 2008 a 2011.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 mewn Mathemateg wedi bod yn gyson agos i gyfartaledd y teulu a Chymru dros bedair blynedd. Mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 mewn gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru dros y tair blynedd diwethaf ond yn is yn 2008.

O’i chymharu gydag ysgolion â lefelau tebyg o ginio am ddim, mae’r ysgol ymhlith y 50% uchaf mewn Saesneg, Cymraeg a dangosydd pynciau craidd ac yn y 50% isaf ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae’r ganran sy’n cyrraedd lefel 5 yng nghyfnod allweddol 2 yn gyson is na chyfartaledd y teulu a Chymru ymhob pwnc. Nid yw’r bechgyn yn perfformio cystal â’r merched o safbwynt cyflawni Lefel 4 mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae’r gagendor mewn Saesneg a Chymraeg wedi lleihau dros y ddwy flynedd diwethaf. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn a merched ar lefel 5 heblaw am fathemateg lle mae’r bechgyn wedi rhagori dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol o fewn y data ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn gysylltiedig â disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim a disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r disgyblion hyn ar y cyfan yn llwyddo i gyrraedd lefelau sy’n unol â’u gallu.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i holiaduron y disgyblion**

O’r 72 ymateb a gafwyd gan y disgyblion, mae pob un yn teimlo bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach a bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron yn yr ysgol er mwyn iddyn nhw wneud eu gwaith.

Mae bron pob un yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, bod llawer o gyfleoedd iddyn nhw gael ymarfer corff, a’u bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae bron pob un hefyd yn teimlo bod yr athrawon a’r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent hefyd o’r farn eu bod yn gwybod beth i’w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd a bod y gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf yn meddwl bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw fwlio ac o’r farn eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef neu hi os ydynt yn poeni neu’n gofidio. Maent hefyd yn teimlo bod pob un o’r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae llawer o’r farn bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a’u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

**Ymateb i holiaduron y rhieni**

O’r 30 ymateb a gafwyd oddi wrth rieni, mae pob un yn fodlon â’r ysgol yn gyffredinol ac o’r farn fod eu plentyn yn ei hoffi. Maent yn teimlo bod eu plentyn wedi derbyn cymorth i ymgartrefu’n dda pan ddechreuon nhw yn yr ysgol, bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yno a bod yr addysgu’n dda. Maent hefyd o’r farn bod y staff yn trin

pob plentyn yn deg a gyda pharch ac yn disgwyl i'r disgyblion weithio'n galed a gwneud eu gorau.

Mae pob rhiant yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol, bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch a bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent o'r farn fod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol, eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn a'u bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. Teimla rhieni fod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni o'r farn bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent hefyd yn mynegi eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion a bod amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod eu plentyn wedi ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Stella Grufydd | Arolygydd Cofnodol |
| Terwyn Tomos | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Helen Jennings | Arolygydd Cymheiriaid |
| Marion Evans | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.